**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 1 Hydref 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | W G Lewis | S Pritchard |
| W G Thomas | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | J W Jones |
| P R Hood-Williams | M Sykes |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rosie Jackson | Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliad |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley

---

## 52 Derbyn Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 53 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 54 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 55 Ymgynghoriad ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd Drafft 2018-2022.

Roedd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni, y Rheolwr Gweithrediadau - Gwasanaethau Tai Cymunedol a'r Uwch-swyddog Rheoli Polisi a Lesddaliad yn bresennol wrth i'r Pwyllgor ystyried y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd Drafft.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau - Gwasanaethau Tai Cymunedol - gyflwyniad a oedd yn amlygu rhai agweddau allweddol ar y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd Drafft. -

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Themâu sy'n dod i'r amlwg
- Blaenoriaethau Allweddol
- Nod Drafft
- Amcanion a Chamau Gweithredu Drafft
- Cynllun Gweithredu
- Camau Nesaf

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Aelod y Cabinet, ac ymatebodd yntau ynghyd â'r Rheolwr Gweithrediadau - Gwasanaethau Tai Cymunedol a'r Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliad, yn briodol.

Roedd cwestiynau, trafodaeth ac arsylwadau'r pwyllgor mewn perthynas â'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft fel rhan o'r broses ymgynghori'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth a chyd-gynhyrchu
- Datblygu Siarter Digartrefedd
- Datblygu rhaglen addysg i gynyddu gwybodaeth am broblemau tai a digartrefedd
- Datblygu protocolau cyn troi allan
- Defnyddio'r sector rhentu preifat/colli llety rhent/perthynas â landlordiaid preifat
- Cynllun benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi
- Prinder eiddo un ystafell well
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i liniaru digartrefedd
- Ymagwedd Tai'n Gyntaf
- Rhwystrau rhag cael mynediad i lety dros dro a llety dros dro â chymorth e.e. anifeiliaid anwes
- Cynigion ac amserlenni i ddiwallu'r angen cynyddol am gefnogaeth i bobl ag anghenion iechyd meddwl/cymhleth
- Cynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gymwys am gymorth digartrefedd a thai oherwydd eu statws mewnfudo
- Y cynllun i gynnal astudiaeth dichonoldeb i ystyried datblygu canolfan 'atebion cyfannol' ar gyfer gwasanaethau i bobl sy'n cysgu allan

- Cefnogi plant y mae digartrefedd eu rhieni'n effeithio arnynt/sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r CCUHP
- Cysylltu â strategaethau eraill
- Costau tai ar gyfer llety â chymorth
- Monitro, gwerthuso ac adolygu llwyddiant/effaith y strategaeth

Diolchodd Aelod y Cabinet y swyddogion am eu gwaith caled mewn perthynas â'r Strategaeth Digartrefedd.

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan amlinellu barn y Pwyllgor, er mwyn i'r Cabinet ei hystyried.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.30 pm

**Cadeirydd**